Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Adroddiad *Emerging Themes* o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i Adolygu'r Ddarpariaeth Fferyllol yng Nghymru**

**Dyddiad:** **29 Hydref 2009**

**Gan:** **Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae'r datganiad hwn yn nodi casgliadau adroddiad cychwynnol y grŵp arbenigol a gomisynais i adolygu gwasanaethau fferyllol ledled Cymru, fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu gwasanaethau fferyllol fel rhan o GIG integredig yng Nghymru.

Sefydlwyd y grŵp ym Mehefin 2009 o dan gadeiryddiaeth Chris Martin, Fferyllydd a Chadeirydd BILl Hywel Dda. Mae Mel Evans, aelod annibynnol o'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a chyn-Brif Weithredwr BILl Rhondda Cynon Taf hefyd yn aelod o'r grŵp. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gallu manteisio ar gyngor ac arbenigedd yr aelodau eraill sy'n dod o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau o fewn y rhwydwaith Fferyllol ac sy'n cael eu cefnogi gan secondai i Lywodraeth y Cynulliad.

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn edrych ar bob agwedd ar wasanaethau fferyllol yng Nghymru ond mae wedi rhoi adroddiad i ddechrau ar y contract Fferylliaeth Gymunedol cyfredol a sut gall Fferyllwyr Cymunedol chwarae rôl fwy i gynnig gofal iechyd o ansawdd uchel i gleifion Cymru. Ymhlith y datblygiadau mae helpu cleifion i reoli eu meddyginiaeth yn well; cydweithio â'r sector ysbytai i sicrhau bod newidiadau ym meddyginiaeth cleifion yn yr ysbyty yn parhau yn y gymuned; a safoni'r gwasanaethau gwell sydd ar gael a'u manylebau ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol, gan godi safonau a sicrhau bod cleifion ledled Cymru yn gallu elwa ar amrywiaeth ehangach o wasanaethau o ansawdd uchel.

Yn ogystal, mae'r Grŵp wedi tynnu sylw at becyn mesurau i leihau faint o feddyginiaeth a wastreffir bob blwyddyn yng Nghymru. Ymhlith y mesurau hyn mae cynyddu Amlweinyddu, gan symud i gylch rhagnodi 28 diwrnod a chynnal ymgyrch genedlaethol wedi'i chydgysylltu yn erbyn gwastraffu meddyginiaeth. Caiff cynlluniau lleihau gwastraff sydd eisoes yn cael eu cynnal mewn rhannau o Gymru eu gwerthuso i weld a oes modd eu cyflwyno'n genedlaethol.

Mae'r Grŵp wedi edrych yn fanwl ar ddogfennau polisi Llywodraeth y Cynulliad, yn ôl i 2002 ac mae hefyd wedi adolygu prif amcanion Contract Fferyllol Cymunedol 2005. Un agwedd ar hwn oedd datblygu mwy o wasanaethau clinigol o fewn y rhwydwaith fferyllol. Mae'n dod i'r casgliad mai'r prif ffactor sydd wedi rhwystro cynnydd yw diffyg system i weithredu polisïau gwasanaeth fferyllol yn effeithiol o fewn amserlenni priodol. Prif argymhelliad y Grŵp, felly, yw creu system fel hon er mwyn sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn parhau i ddatblygu er mwyn diwallu anghenion cyfnewidiol cleifion yng Nghymru.

Ymhlith yr argymhellion eraill mae:

- Symleiddio'r broses geisiadau i wella effeithlonrwydd gweinyddol;
- Adolygu'r strategaeth TG ar gyfer fferylliaeth gymunedol a sicrhau bod unrhyw daliadau i gontractwyr yn arwain at fanteision i'r GIG sydd wedi'u diffinio'n glir;
- Mesur yr angen am Gontract Fferyllol i Gymru a nodi'r adnoddau y mae eu hangen er mwyn datblygu hwn;
- Mesur yn llawn beth yw goblygiadau'r holl argymhellion o ran adnoddau.

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen nawr yn parhau i ddatblygu ei argymhellion cyn cyflwyno adroddiad terfynol i mi ym mis Rhagfyr 2009. Pan gaiff y ddogfen *Emerging Themes* gyfredol ei chyhoeddi ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru (HOWIS), bydd hefyd yn ymgysylltu â'r prif rai sydd â diddordeb i sicrhau bod yr argymhellion cychwynnol hyn yn cael eu gweithredu. Byddaf yn disgwyl i'r GIG yng Nghymru fod yn gwbl gefnogol i waith y grŵp hwn.

Rwyf yn awyddus i wneud yn siwr ein bod yn cryfhau'r berthynas rhwng fferyllwyr a'r cyhoedd, yn harneisio potensial Fferylliaeth Gymunedol i wella gwasanaethau i gleifion ac arddangos mor bwysig yw Fferyllwyr Cymunedol fel rhan annatod o'r ddarpariaeth iechyd.